Adran Cymunedau

Gwybodaeth am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin

Ffeithlen 5

(Mawrth 2017)

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol. Mae'n egluro beth yw Taliadau Uniongyrchol, pwy sydd â hawl i ddefnyddio'r cynllun, sut i'w ddefnyddio a'r cymorth sydd ar gael.

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Taliad yw hwn y gellir ei roi i rywun sydd â hawl i dderbyn gwasanaeth gofal cymunedol gan yr Adran Gofal Cymdeithasol ond y byddai'n well ganddo drefnu ei wasanaeth ei hun.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn fodd i chi brynu'r gwasanaethau y dangosodd asesiad fod arnoch eu hangen, mewn ffordd sy'n cynnig mwy o ddewis a rheolaeth i chi. Mae Taliadau Uniongyrchol hefyd yn caniatáu i unigolyn addas arall i weithredu ar eich rhan os oes angen. Byddai angen unigolyn addas os na fyddai gan y person ag anghenion gofal a chymorth y gallu meddyliol i reoli taliad uniongyrchol, hyd yn oed gyda chymorth.

Gallwch benderfynu sut bydd eich anghenion yn cael eu diwallu, gan bwy ac ar amser sy'n gyfleus i chi. Byddwch yn cael dewis ehangach o wasanaethau yn ogystal â gwir reolaeth dros eich bywyd – chi fydd yn rheoli eich pecyn gofal eich hun. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi cyfle i bobl fyw mor annibynnol â phosib.

Tra bod y ffeithlen hwn yn cyfeirio at yr unigolyn sydd angen gofal, gall hefyd gyfeirio at unigolyn addas arall all weithredu ar ran yr unigolyn sydd angen gofal.

Pwy all dderbyn Taliadau Uniongyrchol?

Gellir cynnig Taliadau Uniongyrchol i bobl sy'n gymwys i dderbyn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Mae pobl gymwys yn cynnwys y bobl hynny yr aseswyd gan yr awdurdod lleol fod ganddynt anghenion gofal a chymorth cymwys, neu fod ganddynt anghenion cymorth yn achos gofalwyr.

Sut y gallaf ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol?

Gellir gwario Taliadau Uniongyrchol ar wasanaethau yr ydych yn gymwys i'w derbyn yn ôl asesiad ac a nodir yn eich cynllun gofal a chymorth, neu yn y cynllun cymorth yn achos gofalwyr.

Gallwch ddefnyddio eich Taliadau Uniongyrchol i brynu gwasanaethau gofal cymunedol megis:

- Helpu â gofal personol megis ymolchi, gwisgo a bwyta prydau bwyd
- Cymorth ymarferol megis siopa a glanhau
- Gofal seibiant

Fel arfer, ni allwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau iechyd neu wasanaethau tai.

Beth yw'r manteision?

- Gallwch ddewis y modd y bydd eich anghenion yn cael eu diwallu
- Gallwch ddewis pwy fydd yn darparu'r gwasanaethau
- Gallwch dderbyn gwasanaethau ar amser sy'n gyfleus i chi
- Byddwch yn cael cymorth i reoli'r cynllun

Beth fydd fy nghyfrifoldebau?

Byddwch yn gyfrifol am reoli'r ffordd y mae eich Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwario yn ôl cytundeb y byddech yn ei gytuno gyda'r Cyngor Sir.

Os byddwch yn cyflogi Cynorthwy-ydd Personol, bydd gennych gyfrifoldebau cyflogwr.

Gallwch gyflogi unrhyw un cyhyd â'u bod yn hybu eich lles.

A fydd angen imi gadw cofnodion?

Bydd, dylech ddefnyddio'r arian yr ydych yn ei dderbyn fel Taliadau Uniongyrchol i dalu am wasanaethau i gwrdd â'ch anghenion gofal cymdeithasol. Arian cyhoeddus ydyw a rhaid i chi ddefnyddio'r arian i dalu am eich anghenion gofal.

Pan fyddwch yn dechrau'r cynllun byddwch yn cael gwybod pa gofnodion i'w cadw a pha wybodaeth y disgwylir i chi ei darparu.

Os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu rheoli Taliadau Uniongyrchol ar eich pen eich hun gallwch dderbyn cymorth. Gall ymgynghorydd o'r Cynllun Cefnogaeth gynnig cyngor a chymorth i chi ynghylch y mater hwn, a'ch cynorthwyo wrth recriwtio a rheoli staff. Comisiynir y Cynllun Cefnogaeth gan Gyngor Sir Gâr ac ar hyn o bryd fe'i darperir drwy Diverse Cymru.

Faint o arian y byddaf yn ei dderbyn?

Mae hwn yn dibynnu ar gyflawni asesiad ynghylch faint o gymorth a'r math o gymorth y mae ei angen arnoch. Bydd eich Cynllun Gofal a Chymorth yn nodi nifer yr oriau y bydd ei angen arnoch bob wythnos a'r gost.

A fydd rhaid imi gyfrannu at y costau?

Mae'n bosib y gofynnir i chi gyfrannu at gostau eich gofal. Bydd hynny'n wir os bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn trefnu'r gwasanaethau i chi neu os byddwch yn dewis Taliadau Uniongyrchol.

Bydd gennych hawl i gael asesiad ariannol (prawf modd) a bydd y swm y gofynnir ichi ei gyfrannu yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad hwnnw.

A fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar y budd-daliadau yr wyf yn eu derbyn?

Na, nid yw Taliadau Uniongyrchol yn effeithio eich budd-daliadau o gwbl gan nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm trethadwy.

Beth ddylwn ei wneud i dderbyn Taliadau Uniongyrchol?

Gallwch gael gwybodaeth am y Cynllun Taliadau Uniongyrchol drwy:

- **Dimau Gofal Cymdeithasol**
- **Diverse Cymru**

Bydd **Gweithiwr Cymdeithasol** yn ymweld â chi i drafod eich sefyllfa a'r cymorth y mae arnoch ei angen. Gelwir hwn yn asesiad. Ar ôl i asesiad brofi bod gennych anghenion gofal cymdeithasol, bydd Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei drefnu a bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn trafod y dewis o Daliadau Uniongyrchol â chi.

Mae Cyngor Sir Gâr yn comisiynu Cynllun Cymorth i helpu pobl i reoli eu Taliadau Uniongyrchol os oes angen. Ar hyn o bryd, Diverse Cymru yw'r Cynllun Cymorth hwn, sydd yn gorff sy'n ymroddedig i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol drwy ddarparu cymorth, cyngor a gwybodaeth. Os byddwch yn penderfynu yr hoffech dderbyn Taliadau Uniongyrchol a chymorth Diverse Cymru, bydd Ymgynghorydd o'r corff yn dod i drafod y cynllun â chi.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol:

Cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu Therapydd Galwedigaethol os oes un gennych neu os hoffech gael asesiad o'ch anghenion gofal, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor a Chymorth drwy ffonio 0300 333 2222 neu drwy Minicom: 01554 756741 neu drwy anfon neges destun: 0789 2345678 neu drwy drefnu atgyfeiriad drwy ein gwefan: www.sirgar.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu gyda'r Cynllun Cymorth Taliadau Uniongyrchol: Diverse Cymru Rhif ffôn: 01267 245579

Os hoffech gael y wybodaeth
hon mewn print bras, mewn Braille neu ar sain
☎ 01267 228703